UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd
European Structural and Investment Funds

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Llywodraeth Cymru – Cronfa'r Môr A Physgodfeydd Ewrop 2014-2020

# Cymorth ar gyfer Partneriaethau, Rhannu Gwybodaeth a Gwasanaethau Cynghori

# Nodiadau Cyfarwyddyd

OGL © Hawlfraint y Goron
ISBN digidol 978-1-4734-8368-2

## CYNNWYS


| | PARAGRAFF |
|---|---|
| Cyflwyniad | 1 |
| Amcanion Strategol a Thematig | 14 |
| Pwy all wneud cais | 22 |
| Gweithgareddau Cymwys | 31 |
| Gweithgareddau Anghymwys | 45 |
| Costau Cymwys | 49 |
| Costau Anghymwys | 64 |
| Cyfradd grant uchaf a'r trothwy grant uchaf | 69 |
| Cymorth Gwladwriaethol | 91 |
| Dewis prosiectau llwyddiannus | 94 |
| Gofynion allweddol | 96 |
| Dangosyddion ac Adrodd | 99 |
| Themâu Trawsbynciol | 124 |
| Sut mae gwneud cais | 127 |
| Amodau Grant | 134 |
| Talu Grant | 136 |
| Monitro Prosiectau | 143 |
| Diwedd Rhaglen EMFF | 147 |
| Gweithdrefn Apelio | 148 |
| Gweithdrefn Gwyno | 150 |

**CYFLWYNIAD**

1. Mae’r Nodiadau Cyfarwyddyd hyn yn esbonio Cronfa’r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) - Cymorth ar gyfer Partneriaethau, Rhannu Gwybodaeth a Gwasanaethau Cynghori - a’r math o brosiectau a allai fod yn gymwys am gymorth grant. Darllenwch nhw’n ofalus. Os ydych chi’n credu wedyn y gallai’ch prosiect fod yn gymwys am grant a’ch bod am wneud cais am gymorth, darllenwch adran “Sut mae Gwneud Cais” y Nodiadau Cyfarwyddyd hyn a’r Canllawiau ‘Sut mae Gwneud Cais’ atodol.

2. Mae cymorth grant ar gael o dan raglen EMFF 2014-2020. Bydd y rhaglen yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion canlynol:

    - hybu pysgodfeydd cystadleuol, sy’n amgylcheddol gynaliadwy, yn economaidd hyfyw ac yn gymdeithasol gyfrifol
    - meithrin y broses o roi’r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (CFP) ar waith
    - hybu datblygiad tiriogaethol cytbwys a chynhwysol ardaloedd pysgodfeydd
    - meithrin y gwaith o ddatblygu a gweithredu Polisi Morol Integredig (IMP) yr Undeb mewn modd sy’n gydnaws â’r polisi cydlyniant ac â’r CFP.

3. <u>Ni fydd cyflawni'r amcanion hynny’n cynyddu capasiti pysgota cwch nac yn cynyddu gallu cwch i ddod o hyd i bysgod.</u>

4. Dylid defnyddio'r canllawiau hyn ar gyfer prosiectau sy’n gysylltiedig ag:

    - arloesi mewn pysgodfeydd
    - gwasanaethau cynghori i wella perfformiad a chystadleurwydd cyffredinol gweithredwyr ac i hybu pysgodfeydd cynaliadwy
    - trosglwyddo gwybodaeth rhwng gwyddonwyr a physgotwyr
    - dylunio, datblygu, monitro, gwerthuso a rheoli systemau ar gyfer dyrannu cyfleoedd pysgota.

5. Mae EMFF yn bwysig i’r diwydiant pysgota ac i gymunedau arfordirol gan y bydd yn helpu busnesau i addasu i’r CFP diwygiedig ac i gefnogi cynaliadwyedd hirdymor y sector a thwf economaidd yr ardal.

6. Y ffocws i Gymru yw datblygu sector pysgota bywiog, cystadleuol a chynaliadwy, gan hwyluso’r broses o roi’r CFP ar waith, manteisio ar botensial dyframaeth ac annog partneriaethau rhwng pysgotwyr a sefydliadau gwyddonol.

7. Cyfrifoldeb i’r ymgeisydd yw sicrhau bod prosiectau arfaethedig yn dechnegol ddichonol, a’u bod yn cydymffurfio â’r holl ddeddfwriaeth berthnasol ar iechyd a diogelwch ac unrhyw ofynion diogelwch eraill sy’n berthnasol i brosiect penodol.

8. Cyfrifoldeb i’r ymgeisydd yw sicrhau bod unrhyw gyfarpar a brynir ag arian EMFF yn cwrdd â’r holl ofynion cyfreithiol angenrheidiol. Os bydd cyfarpar a brynwyd yn

mynd o arfer neu'n dod yn anghyfreithlon wedyn, yna bydd hyn yn gyfrifoldeb i'r ymgeisydd; ni ellir ad-dalu arian na chyflwyno hawliadau yn erbyn y cynllun.

9. Lle y bo'n berthnasol, rhaid i ymgeiswyr ddangos hefyd bod yna farchnad hyfyw ar gyfer eu cynnyrch/cynhyrchion ac na fyddai'r prosiect yn mynd rhagddo heb y grant.

10. Mae'r Rhaglen yn ddewisol a byddai swm y grant a gynigir yn gysylltiedig ag amgylchiadau unigol. Yr **isafswm angenrheidiol** fyddai hynny bob tro i alluogi'r prosiect i fynd rhagddo.

11. Ni fydd perchennog cwch pysgota sy'n cael cymorth yn trosglwyddo'r cwch hwnnw o'r Undeb Ewropeaidd yn ystod cyfnod o bum mlynedd o leiaf yn dilyn y dyddiad y talwyd y cymorth hwnnw i'r buddiolwr. Os trosglwyddwyd cwch o fewn y cyfnod hwnnw, bydd symiau a dalwyd ar ôl torri'r amod hwn mewn perthynas â'r prosiect yn cael eu hadennill gan Lywodraeth Cymru drwy adennill swm sy'n gymesur â'r cyfnod pan nad oedd yr amod wedi'i fodloni.

12. Dim ond amlinelliad o'r Rhaglen a'r modd y mae'n cael ei gweithredu yw hwn, gallai'r rheolau manwl ar gyfer meini prawf cymhwyster newid.

## MESURAU PENODOL

13. Mae'r Nodiadau Cyfarwyddyd hyn yn cwmpasu'r Mesurau EMFF canlynol:

- Mesur I.1: Erthygl 26 – Arloesi
- Mesur I.2: Erthygl 27 – Gwasanaethau cynghori
- Mesur I.3: Erthygl 28 – Partneriaethau rhwng gwyddonwyr a physgotwyr
- Mesur I.13: Erthygl 36 – Cymorth ar gyfer systemau sy'n dyrannu cyfleoedd pysgota

## AMCANION STRATEGOL A THEMATIG

14. Nod EMFF yw cefnogi datblygu cynaliadwy yn y sector pysgota a'r sector dyframaethu a gwarchod yr amgylchedd morol, ynghyd â chefnogi twf a swyddi mewn cymunedau arfordirol, drwy'r canlynol:

- Hybu pysgodfeydd cynaliadwy, arloesol a chystadleuol sy'n effeithlon o ran adnoddau ac yn seiliedig ar wybodaeth:

Canolbwyntio ar arloesi a gwerth ychwanegol, gan hybu pysgodfeydd sy'n amgylcheddol gynaliadwy, yn gystadleuol ac yn effeithlon o ran adnoddau, ac a fydd yn fwy gofalus, yn cynhyrchu llai o wastraff ac yn gwneud llai o ddifrod i ecosystemau morol

- Meithrin dyframaeth gynaliadwy, arloesol a chystadleuol sy'n effeithlon o ran adnoddau ac yn seiliedig ar wybodaeth:

Ar gyfer sector dyframaeth sy'n amgylcheddol gynaliadwy, yn gystadleuol ac yn effeithlon o ran adnoddau; er mwyn helpu busnesau o'r fath i ddod yn economaidd hyfyw ac yn gystadleuol  Meithrin y broses o roi'r CFP ar waith:
Cefnogi'r broses o roi'r CFP ar waith drwy gasglu a rheoli data i wella gwybodaeth wyddonol. Bydd hyn yn cefnogi'r gwaith o fonitro, rheoli a gorfodi deddfwriaeth pysgodfeydd hefyd.

- Cynyddu nifer y swyddi a chydlyniant tiriogaethol:

Cynyddu nifer y swyddi a hybu twf economaidd a chynhwysiant cymdeithasol mewn cymunedau sy'n ddibynnol ar bysgota drwy ddatblygu lleol a arweinir gan gymunedau (CLLD)

- Meithrin marchnata a phrosesu:

Gwella marchnata a phrosesu ar gyfer cynhyrchion dyframaeth a physgodfeydd

- Meithrin y broses o roi'r IMP ar waith:

Cefnogi ymagwedd fwy cydlynol at faterion morol.

15. Mae'r prif flaenoriaethau ar gyfer EMFF yng Nghymru yn cynnwys:

- hwyluso'r broses o roi'r CFP ar waith, yn cynnwys y rhwymedigaeth lanio
- manteisio ar botensial dyframaethu
- gwella diogelwch y diwydiant pysgota
- annog partneriaethau rhwng pysgotwyr a sefydliadau gwyddonol
- datblygu lleol dan arweiniad y gymuned
- cynyddu gwerth ychwanegol pysgod o Gymru
- hybu'r defnydd o Dechnoleg Gwybodaeth o fewn y diwydiant.

16. Rhaid i'r holl brosiectau a gefnogir drwy Gronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESI) yn cynnwys EMFF gyfrannu at gyflawni un neu fwy o'r amcanion polisi strategol neu'r amcanion thematig. Gallai'r rhain gynnwys egwyddorion llorweddol lefel rhaglen (Themâu Trawsbynciol). Gallai'r prosiectau gyfrannu at nifer o amcanion o'r fath ac mae'n rhaid adrodd ar gynnydd o ran cyflawni'r amcanion hynny pan gyflwynir pob cais am grant.

17. Mae Erthygl 24 o Reoliad Rhif 508/2014 (UE) yn egluro y bydd gweithgaredd Datblygu Cynaliadwy mewn Pysgodfeydd o dan EMFF yn cyfrannu at lwyddiant amcanion penodol o dan Flaenoriaeth yr Undeb a nodir yn Erthygl 6(1) o'r un Rheoliad.

18. Mae Erthygl 6(1)(c) yn berthnasol i Erthygl 36 gan ei bod yn hybu pysgodfeydd arloesol, cystadleuol sy'n amgylcheddol gynaliadwy, yn effeithlon o ran adnoddau ac yn seiliedig ar wybodaeth drwy fynd ati i gyflawni'r amcan penodol canlynol – sicrhau cydbwysedd rhwng capasiti pysgota a'r cyfleoedd pysgota sydd ar gael.

19. Mae Erthygl 6(1)(d) yn berthnasol i Erthygl 27 gan ei bod yn hybu pysgodfeydd arloesol, cystadleuol sy'n amgylcheddol gynaliadwy, yn effeithlon o ran adnoddau ac yn seiliedig ar wybodaeth drwy fynd ati i gyflawni'r amcan penodol canlynol –

gwella natur gystadleuol a hyfywedd mentrau pysgodfeydd, yn cynnwys fflydoedd arfordirol ar raddfa fach, a gwella diogelwch ac amodau gwaith.

20. Mae Erthygl 6(1)(e) yn berthnasol i Erthyglau 26 a 28 gan ei bod yn hybu pysgodfeydd arloesol, cystadleuol sy'n amgylcheddol gynaliadwy, yn effeithlon o ran adnoddau ac yn seiliedig ar wybodaeth drwy fynd ati i gyflawni'r amcan penodol canlynol – darparu cymorth i gryfhau datblygu ac arloesi technolegol, yn cynnwys cynyddu effeithlonrwydd ynni, a throsglwyddo gwybodaeth.

21. At hyn, mae'n rhaid i brosiectau fynd i'r afael ag un neu fwy o'r Themâu Trawsbynciol (CCT) sydd wedi'u cynnwys yn y Rhaglen Weithredol lle bo'n briodol gwneud hynny yng nghyd-destun y gweithgareddau y disgwylir iddynt gael eu cyflawni a'r allbynnau neu'r canlyniadau disgwyliedig. Y CCT yw:

- Hyrwyddo cydraddoldeb rhwng dynion a merched a pheidio â gwahaniaethu
- Datblygu cynaliadwy

**<u>PWY ALL WNEUD CAIS</u>**

22. Mae'r canlynol yn gymwys i wneud cais am gymorth EMFF, **oni nodir fel arall ym mharagraffau 24-27**:

- cyrff cyfraith gyhoeddus
- pysgotwyr a / neu berchenogion cychod pysgota sydd ar gofrestr fflyd bysgota'r Undeb Ewropeaidd (UE) ac sy'n cael eu gweinyddu gan Lywodraeth Cymru o borthladd yng Nghymru[1]
- sefydliadau cynhyrchwyr, sefydliadau cydadrannol neu sefydliadau cyhoeddus neu led-gyhoeddus
- sefydliadau pysgotwyr
- sefydliadau anllywodraethol
- busnesau micro, bach, canolig a mawr[2] (oni bai fod cyfyngiadau cymhwysedd ar gyfer Mesurau penodol yn gymwys mewn perthynas â busnesau mawr – gweler paragraffau 24-28
- partneriaethau cyhoeddus-preifat.

23. Os nad ydych yn sicr a ydych yn gymwys i wneud cais am gymorth o dan Fesur penodol, cysylltwch â Llywodraeth Cymru i drafod hyn cyn gwneud cais am arian.

---

[1] Dylai'r rheini sy'n berchen ar gychod ac yn eu gweithredu y tu allan i Gymru wneud cais i'w gwlad eu hunain.

[2] Ystyr 'busnes' yw unrhyw endid sy'n ymgymryd â gweithgarwch economaidd, beth bynnag fo'i ffurf gyfreithiol.

**Mesur I.1: Erthygl 26 - Arloesi**

24. Yn ychwanegol i'r darpariaethau ym mharagraff 22, rhaid i brosiectau gael eu cyflawni gan neu mewn cydweithrediad â chorff gwyddonol neu dechnegol sydd wedi'i gydnabod gan yr Aelod-wladwriaeth.

**Mesur I.2: Erthygl 27 – Gwasanaethau cynghori**

25. Gan randdirymu'r darpariaethau ym mharagraff 22, rhoddir cymorth i'r canlynol **yn unig**:

- pysgotwyr a / neu berchenogion cychod pysgota sydd ar gofrestr fflyd bysgota'r Undeb Ewropeaidd (UE) ac sy'n cael eu gweinyddu gan Lywodraeth Cymru o borthladd yng Nghymru
- sefydliadau pysgotwyr, yn cynnwys sefydliadau cynhyrchwyr
- cyrff cyfraith gyhoeddus.

**Mesur I.3: Erthygl 28 – Partneriaethau rhwng gwyddonwyr a physgotwyr**

26. Gan randdirymu'r darpariaethau ym mharagraff 22, rhoddir cymorth i'r canlynol **yn unig**:

- cyrff cyfraith gyhoeddus
- pysgotwyr a / neu berchenogion cychod pysgota sydd ar gofrestr fflyd bysgota'r Undeb Ewropeaidd (UE) ac sy'n cael eu gweinyddu gan Lywodraeth Cymru o borthladd yng Nghymru
- sefydliadau pysgotwyr
- FLAGs
- sefydliadau anllywodraethol.

**Mesur I.13: Erthygl 36 – Cymorth ar gyfer systemau sy'n dyrannu cyfleoedd pysgota**

27. Gan randdirymu'r darpariaethau ym mharagraff 22, rhoddir cymorth i'r canlynol **yn unig**: awdurdodau cyhoeddus, personau cyfreithiol neu naturiol neu sefydliadau pysgotwyr sydd wedi'u cydnabod gan Lywodraeth Cymru, yn cynnwys sefydliadau cynhyrchwyr cydnabyddedig sy'n ymwneud â chydreoli'r systemau ar gyfer dyrannu cyfleoedd pysgotwyr.

**Diffiniad o fusnes bach a chanolig**

28. Mae busnes bach a chanolig yn fenter sy'n cyflogi llai na 250 o gyflogeion (ar sail gyfwerth ag amser llawn) ac sydd â throsiant blynyddol nad yw'n fwy na 50 miliwn o ewros a/neu gyfanswm ar ei mantolen flynyddol nad yw'n fwy na 43 miliwn o ewros.

Mae ffigurau am staff rhan-amser a gweithwyr tymhorol i’w trin fel ffracsiwn o’r ffigurau cyfwerth ag amser llawn.

- mae busnesau bach a chanolig yn cynnwys busnesau mewn 3 is-gategori: micro, bach a chanolig

- mae busnesau micro yn cyflogi llai na 10 o gyflogeion, busnesau bach yn cyflogi llai na 50 o gyflogeion, a busnesau canolig yn cyflogi llai na 250 o gyflogeion

- mae maint y busnes hefyd yn cyfeirio at y trosiant blynyddol a chyfanswm y fantolen flynyddol mewn sefyllfaoedd penodol.

Gweler llawlyfr defnyddiwr a datganiad enghreifftiol y Comisiwn Ewropeaidd, ‘The new SME definition’[3] am ddiffiniad llawn.

**Yr Holl Fesurau**

29. Ni dderbynnir ceisiadau gan sefydliadau, busnesau nac unigolion sydd wedi'u collfarnu o dwyll o dan naill ai Cronfa Pysgodfeydd Ewrop (EFF) neu EMFF.

30. Ni dderbynnir ceisiadau gan sefydliadau, busnesau nac unigolion sydd wedi’u collfarnu o droseddau y mae Llywodraeth Cymru neu'r UE yn eu hystyried yn ‘dorrheolau difrifol’ neu’n dwyll, yn y 12 mis cyn gwneud cais. Gweler y Nodiadau Cyfarwyddyd ar wahân ar Dor-rheolau Difrifol a Thwyll.

## <u>GWEITHGAREDDAU CYMWYS</u>

**Yr Holl Fesurau**

31. Gweler y Cyflwyniad i’r Nodiadau Cyfarwyddyd hyn am egwyddorion allweddol a gofynion cymhwysedd sy’n gymwys i’r holl Fesurau.

**Mesur I.1: Erthygl 26 - Arloesi**

32. Bydd y gweithgareddau’n hybu ac yn ysgogi arloesi mewn pysgodfeydd, gan hyrwyddo dulliau arloesol o ymdrin â’r rhwymedigaeth lanio a physgodfeydd cymysg. Wrth fuddsoddi mewn gweithgareddau arloesi, canolbwyntir ar fathau penodol iawn o offer, ar leihau dalfeydd diangen ac ar drin, prosesu a marchnata dalfeydd.

[3] Yr Undeb Ewropeaidd, (2015), User guide to the SME definition, yr Undeb Ewropeaidd, Gwlad Belg, (sy’n deillio o): Argymhelliad y Comisiwn (UE) ar 6 Mai 2003 ynghylch y diffiniad o fusnesau micro, bach a chanolig (OJ 124, 20.5.2003, Atodiad 1, p. 4-6)

33. Y gweithgareddau cymwys fydd prosiectau sy'n ceisio datblygu neu gyflwyno:

- cynhyrchion neu gyfarpar newydd neu sylweddol well
- prosesau a thechnegau newydd neu well
- systemau newydd neu well ar gyfer rheoli a threfnu, yn cynnwys rhai ar lefel prosesu a marchnata.

34. Rhaid i brosiectau gael eu cyflawni gan neu mewn cydweithrediad â chorff gwyddonol neu dechnegol sydd wedi'i gydnabod gan yr Aelod-wladwriaeth neu'r Undeb Ewropeaidd. Rhaid i'r corff gwyddonol neu dechnegol hwnnw ddilysu canlyniadau prosiectau o'r fath.

35. Rhaid i Lywodraeth Cymru roi cyhoeddusrwydd digonol i'r canlyniadau o brosiectau sy'n cael cymorth, yn unol ag Erthygl 119 o Reoliad 508/2014 (UE) ar Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop.

**Mesur I.2: Erthygl 27 – Gwasanaethau cynghori**

36. Bydd y gweithgareddau'n gwella perfformiad a chystadleurwydd cyffredinol gweithredwyr pysgodfeydd ac yn hyrwyddo pysgodfeydd cynaliadwy, gan roi cymorth i gael cyngor proffesiynol er mwyn cynyddu potensial a chystadleurwydd busnesau, yn cynnwys cyngor ar sut i gael gafael ar gredyd a meithrin cydnerthedd.

37. Y gweithgareddau sy'n gymwys yw:

- astudiaethau dichonoldeb a gwasanaethau cynghori sy'n asesu hyfywedd prosiectau a all fod yn gymwys i gael cymorth o dan Flaenoriaeth 1 yr Undeb: Hybu pysgodfeydd cynaliadwy, arloesol a chystadleuol sy'n effeithlon o ran adnoddau ac yn seiliedig ar wybodaeth (yn cwmpasu Mesurau sy'n gymwys o dan Erthyglau 26-30; 32; a 36-44 o Reoliad 508/2014 (UE) ar Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop)
- darparu cyngor proffesiynol ar gynaliadwyedd amgylcheddol, gan ganolbwyntio ar gyfyngu a, lle bo'n bosibl, dileu'r effaith negyddol o weithgareddau pysgota ar ecosystemau'r môr, y tir a dŵr croyw
- darparu cyngor proffesiynol ar strategaethau busnes a marchnata.

38. Rhaid i'r gweithgareddau a nodwyd ym mharagraff 37 gael eu darparu gan gyrff gwyddonol, academaidd, proffesiynol neu dechnegol, neu endidau sy'n darparu cyngor economaidd sydd â'r cymwyseddau gofynnol.

**Mesur I.3: Erthygl 28 – Partneriaethau rhwng gwyddonwyr a physgotwyr**

39. Bydd y gweithgareddau’n meithrin yr arfer o drosglwyddo gwybodaeth rhwng gwyddonwyr a physgotwyr, gan hybu cydweithio rhwng gwyddonwyr a’r sector pysgota masnachol. Bydd partneriaethau rhwng y diwydiant a gwyddonwyr yn grymuso rheolaeth leol dros stociau, yn enwedig mewn ardaloedd dynodedig, a bydd cymorth ar gael ar gyfer ymchwil gyfranogol.

40. Y gweithgareddau sy’n gymwys yw:

- creu rhwydweithiau, cytundebau partneriaeth neu gymdeithasau rhwng un neu ragor o gyrff gwyddonol annibynnol a physgotwyr (mewn un neu ragor o sefydliadau pysgotwyr) y gall cyrff technegol gymryd rhan ynddynt
- gweithgareddau a gyflawnir o fewn fframwaith y rhwydweithiau, cytundebau partneriaeth, neu gymdeithasau a nodwyd yn y pwynt bwled uchod. Gall y gweithgareddau hyn gwmpasu gweithgareddau rheoli a chasglu data, astudiaethau, prosiectau peilot, lledaenu gwybodaeth a chanlyniadau ymchwil, seminarau a’r arferion gorau.

41. Rhoddir blaenoriaeth i brosiectau sy’n delio â diffyg data ar stociau allweddol yng Nghymru ac yn helpu i ddatblygu strategaethau hirdymor ar gyfer casglu data. Bydd blaenoriaeth yn cael ei rhoi hefyd i ddulliau newydd o gasglu data a dulliau casglu data o bell.

**Mesur I.13: Erthygl 36 – Cymorth ar gyfer y systemau sy’n dyrannu cyfleoedd pysgota**

42. Er mwyn addasu’r gweithgareddau pysgota i’r cyfleoedd pysgota, mae angen uwchraddio hen systemau ar gyfer rheoli cwotâu i ddelio â diwygiadau i’r CFP a newidiadau eraill.

43. Felly bydd y gweithgareddau’n helpu i addasu dulliau o fonitro, gwerthuso a rheoli systemau cwotâu y mae’r diwygiadau i’r CFP yn effeithio arnynt. Bydd hon yn broses barhaus drwy gydol cyfnod y rhaglen felly bydd Mesur I.13: Erthygl 36 yn cefnogi ariannu ar gyfer treialon neu gynlluniau peilot sy’n cael eu datblygu i roi prawf ar ddulliau newydd o reoli cwotâu.

44. Bydd y gweithgareddau cymwys yn helpu i ddylunio, datblygu, monitro, gwerthuso a rheoli’r systemau ar gyfer dyrannu cyfleoedd pysgota.

**<u>GWEITHGAREDDAU ANGHYMWYS</u>**

**Yr Holl Fesurau**

45. Mae nifer o fuddsoddiadau nad ydynt yn gymwys am gymorth EMFF:

- buddsoddiadau i gynyddu'r ymdrech pysgota, capasiti cwch neu allu cwch i ddod o hyd i bysgod
- buddsoddiadau i gynyddu'r capasiti dal pysgod
- buddsoddiadau i adeiladu cychod pysgota neu eu mewnforio
- buddsoddiadau i roi'r gorau i weithgareddau pysgota dros dro neu'n barhaol

(oni ddarperir ar eu cyfer fel arall yn rheoliadau EMFF)

- buddsoddiadau ar gyfer pysgota archwiliadol
- buddsoddiadau i drosglwyddo perchenogaeth busnes
- buddsoddiadau i gefnogi ailstocio uniongyrchol oni bai bod deddf gyfreithiol yr Undeb Ewropeaidd yn darparu'n benodol ar gyfer hyn fel mesur cadwraeth neu yn achos ailstocio arbrofol
- prynu neu adeiladu cychod pysgota mewndirol  adeiladu Deorfeydd i Gimychiaid
- ffermio organebau sydd wedi'u haddasu'n enetig
- eitemau a gwasanaethau sy'n ofynion statudol neu orfodol o dan y gyfraith ac is-ddeddfau
- costau cynnal a chadw ataliol neu sydd wedi'u trefnu ar gyfer unrhyw ddarn o gyfarpar sy'n sicrhau bod dyfais yn gweithio'n iawn

gweithgareddau sy'n gysylltiedig â physgota hamdden yn y môr neu mewn dŵr croyw

- treillio pwls
- prosiectau sy'n torri gofynion deddfwriaeth Genedlaethol neu ddeddfwriaeth yr UE
- rhwymedigaethau safonol y diwydiant fel gofynion rheoli statudol
- unrhyw weithgareddau neu eitemau annibynnol neu ar wahân y mae buddiolwr eisoes yn cael neu'n bwriadu cael arian yr UE heblaw EMFF ar eu cyfer.

**Mesur I.1: Erthygl 26 – Arloesi**

46. Yn ychwanegol i'r darpariaethau ym mharagraff 45 uchod, mae'r gweithgareddau canlynol yn anghymwys o dan Fesur I.1: Erthygl 26:

- prosiectau nad ydynt yn cael eu cyflawni gan neu mewn cydweithrediad â chorff gwyddonol neu dechnegol sydd wedi'i gydnabod gan yr Aelodwladwriaeth neu'r Undeb Ewropeaidd
- ariannu prosiectau arloesi presennol; er bod ariannu cam gweithredu neu weithgaredd newydd ar wahân sy'n ychwanegu at brosiect blaenorol neu bresennol yn gymwys.

**Mesur I.2: Erthygl 27 – Gwasanaethau cynghori**

47. Yn ychwanegol i'r darpariaethau ym mharagraff 45 uchod, mae'r gweithgareddau canlynol yn anghymwys o dan Fesur I.2: Erthygl 27:

- costau rhedeg darparwyr gwasanaethau cynghori
- gweithgareddau a gyflawnir er mwyn gweithredu ar y canfyddiadau neu argymhellion o astudiaeth ddichonoldeb neu o gyngor proffesiynol.

**Mesur I.3: Erthygl 28 – Partneriaethau rhwng gwyddonwyr a physgotwyr**

48. Yn ychwanegol i’r darpariaethau ym mharagraff 45 uchod, mae’r gweithgareddau canlynol yn anghymwys o dan Fesur I.3: Erthygl 28:

 prosiectau nad ydynt yn cynnwys cydweithio neu bartneriaeth rhwng gwyddonwyr a physgotwyr / sefydliad(au) pysgotwyr.

**<u>COSTAU CYMWYS</u>**

**Mesur I.1: Erthygl 26 – Arloesi**

49. Mae cymorth o dan Fesur I.1: Erthygl 26 yn gallu cwmpasu:

- ffioedd ymgynghorydd, ffioedd technegol a phroffesiynol eraill; ffioedd a ysgwyddir am ganiatadau, trwyddedau a chydsyniadau statudol
- costau contractwr am lafur a defnyddio cyfarpar

costau rhedeg prosiect, yn cynnwys costau staff a rhent am adeiladau; costau llogi ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd rheolaidd y prosiect; costau papur; costau ffôn a/neu’r rhyngrwyd

- costau uniongyrchol am gyflawni unrhyw dreialon ffisegol penodol sydd eu hangen o dan y prosiect. Gall hyn gynnwys hurio neu logi

cyfarpar/cyfleusterau arbenigol ac ariannu gweithrediadau nad ydynt yn safonol

- nwyddau traul (eitemau sy’n cael eu dileu o fewn blwyddyn fel arfer) ar gyfer cynnal treial neu weithgaredd prosiect
- costau rhesymol am ddadansoddi a samplu
- costau rhesymol am deithio a chynhaliaeth i alluogi arbenigwyr i ymweld â safleoedd prosiectau. Gall hyn gynnwys aros dros nos lle bo angen a chyfiawnhad dros wneud hynny.  Bydd angen i’r eitemau hyn gael eu costio a’u cyfiawnhau’n glir yng nghynllun y prosiect sy’n ategu’r ffurflen gais
- costau hyrwyddo, lle mae cyfiawnhad drostynt, a ysgwyddir wrth hysbysebu allbynnau’r prosiect.

50. Lle gellir dangos bod angen uniongyrchol am hynny a’i fod yn ymwneud yn uniongyrchol â darparu’r prosiect, gall y cymorth gwmpasu asedau diriaethol, fel eitemau bach o beirianwaith a chyfarpar; ac asedau anniriaethol fel meddalwedd cyfrifiadur, hawliau patent a thrwyddedau a ffioedd technegol ac ymgynghoriaeth;

- prynu a gosod eitemau bach o beirianwaith a chyfarpar hyd at werth marchnad yr ased

- caffael neu ddatblygu meddalwedd cyfrifiadur a chaffael patentau, trwyddedau, hawlfreintiau a nodau masnach.

Ni ragwelir y bydd eitemau mawr o beirianwaith neu gyfarpar yn cael eu hariannu o dan y Mesur hwn.

51. Mae cyfarpar ail law yn gymwys (ar gyfer busnesau bach a chanolig yn unig) lle gall yr ymgeisydd ddangos y canlynol:

- ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch gyfredol
- ei fod yn addas i'w ddiben
- bod ganddo ddisgwyliad oes o bum mlynedd o leiaf.

52. Mae hurio, lesio neu logi cerbydau'n gymwys dim ond os yw'r cerbyd dan sylw yn cyfrannu'n uniongyrchol i'r prosiect ac nad yw'n cael ei ddefnyddio gan y buddiolwr at unrhyw ddiben arall.

**Mesur I.2: Erthygl 27 – Gwasanaethau cynghori**

53. Mae cymorth o dan Fesur I.2: Erthygl 27 yn gallu cwmpasu:

 costau refeniw sy'n angenrheidiol ar gyfer ac yn ymwneud yn uniongyrchol â darparu neu brynu gwasanaethau cynghori a chyngor proffesiynol, yn cynnwys ffioedd technegol ac ymgynghoriaeth
costau refeniw sy'n angenrheidiol ar gyfer paratoi a chynnal astudiaethau dichonoldeb, fel ffioedd proffesiynol, technegol ac ymgynghoriaeth.

54. Lle gellir dangos bod angen uniongyrchol am hynny a'i fod yn ymwneud yn uniongyrchol â darparu'r prosiect, gall y cymorth gwmpasu asedau anniriaethol fel caffael neu ddatblygu meddalwedd cyfrifiadur a chaffael hawliau patent, trwyddedau, hawlfreintiau a nodau masnach.

**Mesur I.3: Erthygl 28 – Partneriaethau rhwng gwyddonwyr a physgotwyr**

55. Mae cymorth o dan Fesur I.3: Erthygl 28 yn gallu cwmpasu:

- prosiectau peilot, y dylid ei ddehongli fel term sy'n golygu "prosiect prawf". Wrth gwrs, gall prosiect prawf fod yn rhan o broses "datblygu" fwy
- nwyddau traul (eitemau sy'n cael eu dileu o fewn blwyddyn fel arfer) ar gyfer cynnal treial neu weithgaredd prosiect
- costau rhesymol am ddadansoddi a samplu
- costau uniongyrchol o brosiectau ymchwil penodol sy'n gysylltiedig â chynllun manwl.  Gall hyn gwmpasu hurio neu logi cyfarpar/cyfleusterau arbenigol, yn amodol ar y darpariaethau ym mharagraffau 56-59
- ffioedd a ysgwyddir am ganiatadau, trwyddedau a chydsyniadau statudol

- costau rhedeg prosiect, yn cynnwys costau staff a rhent am adeiladau; costau llogi ystafelloedd ar gyfer cyfarfodydd rheolaidd y prosiect; costau papur; costau ffôn a/neu’r rhyngrwyd
- bywiocáu – costau refeniw ar gyfer pobl (bywiocawyr) a fyddai’n broceru ac yn hwyluso camau i greu partneriaethau a rhwydweithiau neu gymdeithasau rhwng cyrff gwyddonol a physgotwyr / sefydliad(au) pysgotwyr, yn cynnwys costau cysylltiedig fel costau teithio a chynhaliaeth (byddai costau cysylltiedig â bywiocáu hefyd yn ymwneud â recriwtio rhanddeiliaid a rhwydweithio rhyngddynt)
- hwyluso a gweithredu – costau refeniw ar gyfer pobl, yn cynnwys costau cysylltiedig fel costau teithio a chynhaliaeth, a fydd yn rheoli a darparu gweithgareddau’n uniongyrchol a/neu’n darparu cymorth i bysgotwyr neu sefydliadau pysgotwyr er mwyn iddynt ymwneud â gweithgareddau ymchwil neu gymryd rhan ynddynt
- cyfathrebu a lledaenu – costau refeniw ar gyfer cyfathrebu am y gweithgareddau arfaethedig; lledaenu gwybodaeth ymysg cymunedau rhanddeiliaid; cyfathrebu parhaus o fewn a rhwng cyrff gwyddonol a physgotwyr neu sefydliadau pysgotwyr a lledaenu canfyddiadau a chanlyniadau’r gweithgareddau ar y diwedd, yn cynnwys costau am ddigwyddiadau neu seminarau, costau cysylltiedig fel costau teithio a chynhaliaeth a chostau lleoliadau a/neu arlwyo a chostau sy’n ymwneud â chyhoeddi canlyniadau.

56. Yn amodol ar y darpariaethau ym mharagraff 57, lle gellir dangos bod angen uniongyrchol am hynny a’i fod yn ymwneud yn uniongyrchol â darparu’r prosiect, gall y cymorth gwmpasu:

asedau diriaethol bach, fel prynu a gosod eitemau bach o beirianwaith a chyfarpar am gost sy’n is na’r trothwy cyfalafu a gytunwyd ac nad yw felly’n wariant cyfalaf, hyd at werth marchnad yr ased (gweler paragraffau 57 a 58 isod)

- asedau anniriaethol fel caffael neu ddatblygu meddalwedd cyfrifiadur, hawliau patent, trwyddedau, hawlfreintiau, nodau masnach a ffioedd technegol ac ymgynghoriaeth.

Nid yw gwariant cyfalaf yn gymwys.

57. Fel arfer bydd gwariant cyfalaf yn cael ei ddiffinio yn unol â throthwy cyfalafu’r buddiolwr.  Y diffiniad o hyn fel arfer yw unrhyw eitem unigol ac iddi werth o fwy na £5,000 (a/neu oes ddefnyddiol o fwy nag un flwyddyn).  Fodd bynnag, os bydd y buddiolwyr hynny sydd â throthwy cyfalafu sefydliadol o fwy na £5,000 yn cyflwyno achos wedi’i seilio ar dystiolaeth ddigonol, gallant fod yn gymwys ar gyfer trothwy cyfalafu o fwy na £5,000 a hyd at eu trothwy cyfalafu sefydliadol.  Cynghorir buddiolwyr sydd yn y sefyllfa hon i gysylltu â Llywodraeth Cymru i drafod y trothwy cyfalafu a fyddai’n briodol ar gyfer eu prosiect.

58. Mae eitemau bach o gyfarpar ail law sy’n cydymffurfio â’r darpariaethau ym mharagraffau 56 a 57 uchod yn gymwys (ar gyfer busnesau bach a chanolig yn unig) lle gall yr ymgeisydd ddangos y canlynol:

- eu bod yn cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch gyfredol
- eu bod yn addas i’w diben
- bod o leiaf bum mlynedd o’u hoes ddisgwyliedig yn weddill.

59. Mae hurio, lesio neu logi cerbydau’n gymwys dim ond os yw’r cerbyd dan sylw yn cyfrannu’n uniongyrchol i’r prosiect ac nad yw’n cael ei ddefnyddio gan y buddiolwr at unrhyw ddiben arall.

**Mesur I.13: Erthygl 36 – Cymorth ar gyfer y systemau sy’n dyrannu cyfleoedd pysgota**

60. Mae cymorth o dan Fesur I.13: Erthygl 36 yn gallu cwmpasu:

- ffioedd ymgynghorydd, ffioedd technegol a phroffesiynol eraill
- lle mae hynny’n uniongyrchol angenrheidiol ar gyfer darparu’r prosiect, ffioedd a ysgwyddir am ganiatadau, trwyddedau a chydsyniadau statudol
- costau contractwr am lafur a defnyddio cyfarpar
- prosiectau peilot, y dylid ei ddehongli fel term sy’n golygu “prosiect prawf”. Wrth gwrs, gall prosiect prawf fod yn rhan o broses “datblygu” fwy □ costau staff sy’n ymwneud yn uniongyrchol â darparu’r prosiect a, lle gellir dangos bod y rhain yn rhoi gwerth am arian, costau rhedeg eraill y prosiect
- costau uniongyrchol am gyflawni unrhyw dreialon penodol neu weithgaredd prosiect arall sydd eu hangen o dan y prosiect. Gall hyn gynnwys hurio neu logi cyfarpar/cyfleusterau arbenigol.
- nwyddau traul (eitemau sy’n cael eu dileu o fewn blwyddyn fel arfer) ar gyfer cynnal treialon neu weithgaredd prosiect
- costau sy’n gysylltiedig â gwerthuso systemau sy’n dyrannu cyfleoedd pysgota, yn cynnwys gwerthuso systemau’n allanol os gellir dangos bod hyn yn rhoi gwerth am arian.

61. Lle gellir dangos bod angen uniongyrchol am hynny a’i fod yn ymwneud yn uniongyrchol â darparu’r prosiect, gall y cymorth gwmpasu asedau diriaethol, fel eitemau bach o beirianwaith a chyfarpar; ac asedau anniriaethol fel meddalwedd cyfrifiadur, hawliau patent a thrwyddedau a ffioedd technegol ac ymgynghoriaeth;

- prynu a gosod eitemau bach o beirianwaith a chyfarpar hyd at werth marchnad yr ased
- caffael neu ddatblygu meddalwedd cyfrifiadur a chaffael patentau, trwyddedau, hawlfreintiau a nodau masnach.

Ni ragwelir y bydd eitemau mawr o beirianwaith neu gyfarpar yn cael eu hariannu o dan y Mesur hwn.

62. Mae cyfarpar ail law yn gymwys (ar gyfer busnesau bach a chanolig yn unig) lle gall yr ymgeisydd ddangos y canlynol:

- ei fod yn cydymffurfio â deddfwriaeth iechyd a diogelwch gyfredol
- ei fod yn addas i'w ddiben
- bod ganddo ddisgwyliad oes o bum mlynedd o leiaf.

63. Mae hurio, lesio neu logi cerbydau'n gymwys dim ond os yw'r cerbyd dan sylw yn cyfrannu'n uniongyrchol i'r prosiect ac nad yw'n cael ei ddefnyddio gan y buddiolwr at unrhyw ddiben arall.

## <u>COSTAU ANGHYMWYS</u>

### Yr Holl Fesurau

64. Mae'r eitemau canlynol yn enghreifftiau o fathau eraill o wariant sy'n **anghymwys** ar gyfer cymorth grant EMFF. <u>Nid yw hon yn rhestr derfynol</u> a bydd pob eitem o wariant yn cael ei hystyried fesul achos. Gweler hefyd y rhestrau ym mharagraffau 67-68 isod o gostau sy'n anghymwys o dan Fesurau penodol, sy'n ychwanegol at y rhestr ganlynol:

- unrhyw gostau y gallech eu hadennill yn rhannol neu i gyd drwy wneud hawliad ar bolisi yswiriant neu drwy geisio iawndal neu ddigollediad
- adeiladu, caffael neu wella eiddo sefydlog
- prynu adeiladau sydd wedi'u defnyddio'n flaenorol ar gyfer yr un diben
- unrhyw waith ffisegol neu wariant arall a ysgwyddir cyn dyddiad dechrau'r prosiect sydd heb eu cymeradwyo mewn ysgrifen ymlaen llaw gan roddwr y grant **(os oes gwaith fel hyn wedi'i wneud, gellir diddymu'r dyfarniad cyfan)**
- gwaith dros dro nad yw'n **uniongyrchol** gysylltiedig â gweithredu'r prosiect
- **prynu** ceir, faniau, beiciau modur, beiciau ac unrhyw fath arall o gludiant personol (at ba ddiben bynnag)
- **prynu** cerbydau ar gyfer trawsgludo allanol (fel lorïau, bysiau, faniau, bysiau mini neu unrhyw fath arall o gerbyd a ddefnyddir i gludo nwyddau neu bobl) **a** chodi pethau a thrawsgludo mewnol (fel wagenni fforch godi neu gerbydau tebyg) er bod costau sy'n gysylltiedig â hurio, lesio, llogi neu weithredu cerbydau y mae angen uniongyrchol amdanynt i ddarparu'r prosiect yn gallu bod yn gymwys ar gyfer cymorth grant EMFF os ydynt yn cydymffurfio â gofynion cymhwyster penodol y Mesur)
- prynu stoc masnachu
- cyfalaf gweithio

- TAW adenilladwy
- costau cynnal a chadw ataliol neu reolaidd ar gyfer cychod a chyfarpar ac ar gyfer adeiladau, peiriannau neu gyfarpar presennol, yn cynnwys costau cynnal a chadw cerbydau
- costau gweithredu
- costau sy'n gysylltiedig â llenwi ffurflenni cais EMFF, yn cynnwys talu ymgynghorwyr i ddarparu cymorth i lenwi'r ffurflenni cais
- costau cyfarpar a llafur eich hun
- cyfnewid peiriannau neu gyfarpar am rai newydd yr un fath
- cyfarpar hamdden (er y gall setiau teledu, taflunyddion ac ati at ddibenion addysgol neu fusnes fod yn gymwys)
- tirlunio, gwaith addurnol a darparu amwynderau hamdden
- cyfarpar a dodrefn swyddfa cyffredinol heblaw am ddesgiau, cadeiriau, cyfarpar ffôn, cyfrifiaduron a chyfarpar TG arall, meddalwedd a theleargraffyddion, cyfarpar labordai a darlithfeydd sy'n hanfodol ar gyfer cyflawni'r prosiect
- treuliau cyfarwyddwyr allanol
- costau sy'n gysylltiedig â chontract prydlesu fel elw leswyr, costau cyllido llog, gorbenion a thaliadau yswiriant
- costau trefnu cyfleusterau gorddrafft, benthyciadau neu gyfleusterau cymorth ariannol eraill, gan gynnwys unrhyw ffioedd cysylltiedig neu daliadau eraill
- gorbenion sy'n cael eu dyrannu neu eu dosrannu ar gyfraddau llawer uwch na'r rhai a ddefnyddir ar gyfer gwaith tebyg a gyflawnir gan yr ymgeisydd
- gwariant tybiannol
- taliadau ar gyfer gweithgarwch o natur grefyddol a/neu wleidyddol
- dibrisiant, amorteiddiad ac amhariad asedau a brynwyd gyda chymorth grant Ewropeaidd
- rhwymedigaethau digwyddiadol
- hapddigwyddiadau / darpariaethau
- elw a wneir gan yr ymgeisydd
- buddrannau
- taliadau llog (ac eithrio o dan gynllun Cymorth Gwladwriaethol a gymeradwyir)
- taliadau gwasanaeth sy'n deillio o brydlesau cyllid, hurbwrcasu a threfniadau credyd
- costau sy'n deillio o ohirio taliadau i gredydwyr
- costau sy'n ymwneud â dirwyn cwmni i ben
- taliadau am ddiswyddo annheg
- taliadau i gynlluniau pensiwn preifat
- taliadau ar gyfer pensiynau heb eu cyllido
- iawndal am golli swydd

- iawndal a delir i drydydd parti am ddifeddiannu, cnydau heb eu cynaeafu ac ati
- iawndal am gostau ychwanegol sydd wedi'u hysgwyddo a/neu incwm sydd wedi'i ildio
- drwgddyledion sy'n deillio o fenthyciadau i weithwyr, perchenogion, cyfarwyddwyr, partneriaid, gwarantwyr, rhanddeiliaid neu berson sy'n gysylltiedig ag unrhyw un o'r rhain
- taliadau am anrhegion a rhoddion
- adloniant personol (yn cynnwys alcohol)
- costau sy'n gysylltiedig â gofynion sy'n codi o gamau gorfodi statudol
- dirwyon a chosbau statudol
- trethi statudol (ac eithrio TAW na ellir ei hadennill)
- dirwyon ac iawndal troseddol
- treuliau cyfreithiol yn ymwneud â chyfreitha.

65. Ni ellir defnyddio grant i gaffael asedau cyfalaf nad ydynt yn hanfodol ar gyfer cyflawni'r gweithgarwch arfaethedig.

66. Mae costau sy'n gysylltiedig â phrynu cyfarpar (newydd a/neu ail law) yn gymwys i gael cymorth grant dim ond os ydynt yn cydymffurfio â gofynion cymhwyster penodol y Mesur a bod y gost wedi'i thalu'n gywir gan yr hawliwr. Felly, nid yw costau llawn unrhyw gyfarpar sy'n cael ei sicrhau dan drefniant hurbwrcasu neu brydles neu unrhyw drefniant ariannol arall yn gymwys am gymorth grant. O dan amgylchiadau penodol, gall elfen gyfalaf taliadau misol fod yn gymwys am gyfnod penodol, ond bydd rheolau eraill yn gymwys.

**Mesur I.2: Erthygl 27 – Gwasanaethau cynghori**

67. Yn ychwanegol at y darpariaethau ym mharagraffau 64-66 uchod, mae'r costau canlynol yn anghymwys yn benodol o dan Fesur I.2: Erthygl 27:

- gwariant cyfalaf (fel arfer bydd gwariant cyfalaf yn cael ei ddiffinio yn unol â throthwy cyfalafu'r buddiolwr. Y diffiniad o hyn fel arfer yw unrhyw eitem unigol ac iddi werth o fwy na £5,000 (a/neu oes ddefnyddiol o fwy nag un flwyddyn). Fodd bynnag, os bydd y buddiolwyr hynny sydd â throthwy cyfalafu sefydliadol o fwy na £5,000 yn cyflwyno achos wedi'i seilio ar dystiolaeth ddigonol, gallant fod yn gymwys ar gyfer trothwy cyfalafu o fwy na £5,000 a hyd at eu trothwy cyfalafu sefydliadol. Cynghorir buddiolwyr sydd yn y sefyllfa hon i gysylltu â Llywodraeth Cymru i drafod y trothwy cyfalafu a fyddai'n briodol ar gyfer eu prosiect)
- prynu neu lesio peiriannau a chyfarpar
- costau rhedeg darparwyr gwasanaethau cynghori
- costau sy'n ganlyniad i neu'n gysylltiedig â gweithredu ar y canfyddiadau mewn astudiaeth ddichonoldeb neu gyngor proffesiynol.

**Mesur I.3: Erthygl 28 – Partneriaethau rhwng gwyddonwyr a physgotwyr**

68. Yn ychwanegol at y darpariaethau ym mharagraffau 64-66 uchod, mae'r costau canlynol yn anghymwys yn benodol o dan Fesur I.3: Erthygl 28:

 gwariant cyfalaf (fel arfer bydd gwariant cyfalaf yn cael ei ddiffinio yn unol â throthwy cyfalafu'r buddiolwr. Y diffiniad o hyn fel arfer yw unrhyw eitem unigol ac iddi werth o fwy na £5,000 (a/neu oes ddefnyddiol o fwy nag un flwyddyn). Fodd bynnag, os bydd y buddiolwyr hynny sydd â throthwy cyfalafu sefydliadol o fwy na £5,000 yn cyflwyno achos wedi'i seilio ar dystiolaeth ddigonol, gallant fod yn gymwys ar gyfer trothwy cyfalafu o fwy na £5,000 a hyd at eu trothwy cyfalafu sefydliadol. Cynghorir buddiolwyr sydd yn y sefyllfa hon i gysylltu â Llywodraeth Cymru i drafod y trothwy cyfalafu a fyddai'n briodol ar gyfer eu prosiect).

**<u>CYFRADD GRANT UCHAF A'R TROTHWY GRANT UCHAF</u>**

69. Mae swm y grant yn cynnwys cyfanswm cyfraniad y sector cyhoeddus at y buddsoddiad neu brosiect sy'n cynnwys: arian gan yr UE; cyd-gyllido cronfeydd yr UE gan Lywodraeth Cymru; arian gan adrannau ac asiantaethau eraill y llywodraeth; cyrff cyhoeddus anadrannol ac awdurdodau lleol; arian gan gyrff llywodraethol a reolir fel y Gwasanaeth Busnesau Bach a'r Loteri Genedlaethol; ac arian o drethi ardrethiannol (ardollau).

70. Os ceir arian cyhoeddus arall o'r UE neu'r DU i gefnogi costau prosiect, bydd yn cael ei ddisgowntio yn erbyn grant EMFF.

71. Y trothwy grant isaf fesul prosiect unigol yw **£2,400**.

72. Yn y cam hwn, nid oes unrhyw drothwy grant uchafswm wedi'i bennu. Fodd bynnag, mae'r Rhaglen yn ddewisol a byddai swm y grant a gynigir yn berthnasol i amgylchiadau unigol a bob amser y **swm gofynnol angenrheidiol** i alluogi i'r prosiect fynd yn ei flaen.

**<u>Cyfraddau Grant:</u>**

73. Cyfraddau grant yw lefel uchaf y cymorth cyhoeddus y gall prosiect fod yn gymwys ar ei gyfer. Felly, mae'n rhaid i'r buddiolwr sicrhau gweddill yr arian o gronfeydd nad ydynt yn rhai cyhoeddus. Os ceir arian cyhoeddus arall o'r UE neu'r DU i gefnogi costau prosiect, bydd yn cael ei ddisgowntio yn erbyn grant EMFF.

74. Y gyfradd grant uchaf ar gyfer corff cyfraith gyhoeddus yw **100%**.

75. Mae'r cyfraddau grant uchaf ar gyfer buddiolwyr nad ydynt yn gyrff cyfraith gyhoeddus fel a ganlyn:

- Y gyfradd grant ar gyfer pysgotwyr arfordirol ar raddfa fach neu ar gyfer prosiect sy'n gysylltiedig â fflyd pysgodfeydd arfordirol ar raddfa fach yw **80%.**[4]
- Y gyfradd grant uchaf ar gyfer Sefydliadau Cynhyrchwyr, cymdeithas o Sefydliadau Cynhyrchwyr neu sefydliad cydadrannol yw **75%**.
- Y gyfradd grant uchaf ar gyfer sefydliadau pysgotwyr neu fuddiolwyr ar y cyd eraill yw **60%**.
- Y gyfradd grant uchaf ar gyfer sefydliadau preifat sy'n fusnesau bach a chanolig nad ydynt yn bysgotwyr arfordirol ar raddfa fach (ar gyfer prosiect nad yw'n gysylltiedig â fflyd pysgodfeydd arfordirol ar raddfa fach) yw **50%**.
- Y gyfradd grant uchaf ar gyfer busnesau mawr (sefydliadau preifat nad ydynt yn fusnesau bach a chanolig) nad ydynt yn bysgotwyr arfordirol ar raddfa fach (ar gyfer prosiect nad yw'n gysylltiedig â fflyd pysgodfeydd arfordirol ar raddfa fach) yw **30%**.

76. Gweler yr adran Pwy All Wneud Cais yn y Nodiadau Cyfarwyddyd hyn i gadarnhau eich bod yn gymwys i wneud cais.

<u>Rhanddirymiadau:</u>

77. Mae Erthygl 95 o Reoliad Rhif 508/2014 yr UE (Rheoliad EMFF) yn nodi:

Gall Aelod-wladwriaethau ddefnyddio lefel o gymorth cyhoeddus rhwng 50% a 100% o gyfanswm y gwariant cymwys os:

(a) yw'r gweithredu (y prosiect) yn digwydd o dan Benodau I, II neu IV o Deitl V a'i fod yn bodloni'r <u>holl</u> feini prawf canlynol:

(i) mae er budd pawb
(ii) mae ganddo gyd-fuddiolwr (iii) mae ganddo nodweddion arloesol, lle y bo'n briodol, yn lleol.

78. **Bydd Llywodraeth Cymru yn arfarnu'r holl geisiadau am lefel uwch o gymorth cyhoeddus fesul achos. Disgresiwn Llywodraeth Cymru yw gwneud y penderfyniad terfynol ar lefel y cymorth cyhoeddus y gall prosiect fod yn gymwys i'w gael.**

<u>Cyd-fudd a Chyd-fuddiolwr:</u>

---

[4] Mae Pysgota Arfordirol ar Raddfa Fach (SSCF) yn golygu pysgota o gychod pysgota sy'n mesur 11.99 metr o hyd neu lai heb ddefnyddio offer pysgota llusgo fel y rhestrir yn Nhabl 3 o Atodiad I i Reoliad Rhif 26/2004 y Comisiwn (CE).

79. 'Cyd-fuddiolwr' yw sefydliad y cydnabyddir ei fod yn cynrychioli budd ei aelodau, grŵp o randdeiliaid neu'r cyhoedd yn gyffredinol. Y sefydliad ei hun yn ei gyfanrwydd ddylai fod yn fuddiolwr prosiect ac nid ei aelodau.

80. Caiff 'cyd-fudd' ei ddiffinio fel camau gweithredu a gaiff eu cymryd gan y sefydliad hwn sydd er cyd-fudd ei aelodau, grŵp o randdeiliaid neu'r cyhoedd. Dylai camau gweithredu o'r fath felly gwmpasu mwy na chyfanswm buddiannau unigol aelodau o'r cyd-fuddiolwr hwn.

81. Os nad oes gan brosiect fudd ariannol uniongyrchol i'r ymgeisydd sy'n cyflawni'r prosiect neu i fuddiolwr y prosiect a bod ganddo gyd-fudd a chyd-fuddiolwr (neu fuddiolwyr) yna gellir ei ystyried yn Gyd-brosiect.

82. Os oes gan brosiect fudd ariannol uniongyrchol i'r ymgeisydd sy'n cyflawni'r prosiect neu i fuddiolwr y prosiect yna ni ellir ei ystyried yn Gyd-brosiect.

83. At hyn, er mwyn bod yn gymwys ar gyfer y gyfradd uwch o gymorth cyhoeddus, rhaid bod gan brosiect nodweddion arloesol.

84. Gellir diffinio arloesedd mewn nifer o ffyrdd gwahanol. Er enghraifft:

- **arloesedd cynnyrch** yw cyflwyno nwyddau neu wasanaethau sy'n newydd neu wedi gwella'n sylweddol o ran eu nodweddion neu eu defnyddiau bwriadedig. Mae hyn yn cynnwys gwelliannau sylweddol i'r manylebau technegol, y cydrannau a'r defnyddiau, y feddalwedd gysylltiedig, pa mor hawdd ydyw i'w drin neu nodweddion swyddogaethol eraill

- ystyr **arloesedd proses** yw rhoi dull cynhyrchu neu ddarparu ar waith sy'n newydd neu wedi gwella'n sylweddol. Mae hyn yn cynnwys newidiadau sylweddol mewn technegau, cyfarpar a/neu feddalwedd

- ystyr **arloesedd marchnata** yw rhoi dull marchnata newydd ar waith sy'n cynnwys newidiadau sylweddol i'r gwaith o ddylunio neu becynnu cynnyrch, lleoliad cynnyrch, hyrwyddo cynnyrch neu ei brisio

- ystyr **arloesedd sefydliadol** yw rhoi dull sefydliadol newydd ar waith fel rhan o drefniadaeth gweithle, cysylltiadau allanol neu arferion busnes y sefydliad neu'r cwmni.

Ffynhonnell: Oslo Manual: Guidelines for Collecting and Interpreting Innovation Data; Third edition (cyhoeddiad ar y cyd rhwng OECD a Eurostat):

http://ec.europa.eu/eurostat/documents/3859598/5889925/OSLO-EN.PDF

85. **Nid yw'r rhestr hon yn rhagnodol nac yn gynhwysfawr. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd yw cyflwyno achos cadarn a darbwyllol i ddangos bod ei brosiect arfaethedig yn cynnwys nodweddion gwirioneddol arloesol.**

86. Gall nodweddion arloesol fod yn weithgareddau sy'n arloesol i'r sector neu'r diwydiant ond gallant hefyd fod yn arloesol i fusnes neu sefydliad, ond mae'n rhaid iddynt fod yn bresennol. Os yw'r prosiect yn cael ei gyflawni'n lleol, rhaid i'r nodweddion arloesol fod yn bresennol yn lleol.

87. Disgwylir hefyd i'r ymgeisydd ddangos y canlynol:

- bod y nodweddion arloesol yn berthnasol i'r nodau a'r gweithgareddau cymwys o fewn y Mesur penodedig
- dylai'r nodweddion arloesol fod yn berthnasol i gyflawni nodau'r prosiect.

88. Lle bo'r arloesedd arfaethedig yn ymwneud â sefydliad neu fusnes, efallai y bydd disgwyl i'r ymgeisydd ddangos bod y gweithgarwch hwn hefyd yn cynrychioli rhywfaint o arloesedd o fewn y sector neu'r diwydiant perthnasol.

89. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried y gwerth am arian a gynrychiolir gan y prosiect cyfan, yn cynnwys unrhyw nodweddion arloesol arfaethedig fel rhan o'r arfarniad prosiect ehangach.

90. **Bydd Llywodraeth Cymru yn arfarnu'r holl geisiadau am lefel uwch o gymorth cyhoeddus fesul achos. Disgresiwn Llywodraeth Cymru yw gwneud y penderfyniad terfynol ar lefel y cymorth cyhoeddus y gall prosiect fod yn gymwys i'w gael.**

## <u>CYMORTH GWLADWRIAETHOL</u>

91. Rhaid i bob prosiect gydymffurfio â holl reolau cymhwyster y cynllun a rheolau Cymorth Gwladwriaethol er mwyn bod yn gymwys i gael arian.

92. Nid yw Erthyglau 107, 108 a 109 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (TFEU) yn gymwys i grantiau a ddarperir o dan y cynllun hwn sy'n cael eu gwneud yn unol â Rheoliad Rhif 508/2014 (UE) Senedd Ewrop a'r Cyngor ar Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop, o fewn cwmpas Erthygl 42 o'r TFEU. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r prosiectau ymwneud â dal, cynhyrchu a/neu brosesu cynhyrchion pysgodfeydd. Caiff y rhain eu diffinio yn:

- Atodiad I i'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd (a geir yng Nghyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd o dan 2012/C 326/01)
- Atodiadau I a II i reoliad Trefniant Cyffredin ar gyfer Marchnadoedd yr UE 1379/2013.

93. Os nad ydych chi'n teimlo bod eich prosiect yn bodloni'r meini prawf hyn yna dylech gysylltu â Llywodraeth Cymru i drafod eich prosiect cyn gwneud cais am arian.

## DEWIS PROSIECTAU LLWYDDIANNUS

94. I gael ei ddewis, mae disgwyl i brosiect, fel y bo'n briodol, ddangos:

**Ei fod yn cydweddu â Rhaglen Weithredol EMFF:**

Yn benodol, mae disgwyl i brosiect ddangos:

Cydweddiad Strategol:

Sut y bydd y prosiect arfaethedig yn cefnogi nodau'r Mesur, yr Amcan Penodol a Blaenoriaeth yr Undeb drwy amlinellu:

**Yr Holl Fesurau:**

 sut y bydd y prosiect arfaethedig yn hybu pysgodfeydd cynaliadwy, arloesol a chystadleuol sy'n effeithlon o ran adnoddau ac yn seiliedig ar wybodaeth.

**Amcan Penodol 3: Sicrhau cydbwysedd rhwng capasiti pysgota a'r cyfleoedd pysgota sydd ar gael**

**Mesur I.13: Erthygl 36 – Cymorth ar gyfer y systemau sy'n dyrannu cyfleoedd pysgota**

- sut y bydd y prosiect arfaethedig yn cyfrannu at gyflawni Amcan Penodol 3 sef sicrhau cydbwysedd rhwng capasiti pysgota a'r cyfleoedd pysgota sydd ar gael
- sut y bydd y prosiect arfaethedig yn cyfrannu at gyflawni'r nodau a'r gweithgareddau cymwys sydd wedi'u hamlinellu yn yr adran Gweithgareddau Cymwys yn y Nodiadau Cyfarwyddyd hyn.

**Amcan Penodol 4: Gwella natur gystadleuol a hyfywedd mentrau pysgodfeydd, yn cynnwys fflydoedd arfordirol ar raddfa fach, a gwella diogelwch ac amodau gwaith**

**Mesur I.2: Erthygl 27 – Gwasanaethau cynghori**

- sut y bydd y prosiect arfaethedig yn cyfrannu at gyflawni Amcan Penodol 4 sef gwella natur gystadleuol a hyfywedd mentrau pysgodfeydd, yn

cynnwys fflydoedd arfordirol ar raddfa fach, a gwella diogelwch ac amodau gwaith
- sut y bydd y prosiect arfaethedig yn cyfrannu at gyflawni'r nodau a'r gweithgareddau cymwys sydd wedi'u hamlinellu yn yr adran Gweithgareddau Cymwys yn y Nodiadau Cyfarwyddyd hyn.

**Amcan Penodol 5: Darparu cymorth i gryfhau datblygu ac arloesi technolegol, yn cynnwys cynyddu effeithlonrwydd ynni, a throsglwyddo gwybodaeth**

**Mesur I.1: Erthygl 26 – Arloesi** a **Mesur I.3: Erthygl 28 – Partneriaethau rhwng gwyddonwyr a physgotwyr**

- sut y bydd y prosiect arfaethedig yn cyfrannu at gyflawni Amcan Penodol 5 sef darparu cymorth i gryfhau datblygu ac arloesi technolegol, yn cynnwys cynyddu effeithlonrwydd ynni, a throsglwyddo gwybodaeth
- sut y bydd y prosiect arfaethedig yn cyfrannu at gyflawni'r nodau a'r gweithgareddau cymwys sydd wedi'u hamlinellu yn yr adran Gweithgareddau Cymwys yn y Nodiadau Cyfarwyddyd hyn.

<u>Dangosyddion a Chanlyniadau:</u>

- sut y bydd y prosiect yn cyfrannu at gyflawni Dangosyddion Canlyniadau EMFF sy'n berthnasol i'r Mesur a ddewiswyd sydd wedi'u nodi yn yr adran Dangosyddion Canlyniadau yn y Nodiadau Cyfarwyddyd hyn.

<u>Addasrwydd yr Ymyriad:</u>

- esbonio'r manteision ehangach neu'r canlyniadau y gall y prosiect eu cyflawni yn eich barn chi, yn ogystal â'r prif ganlyniadau y bydd y prosiect yn cyfrannu drwyddyn nhw at gyflawni'r nodau ym Mlaenoriaeth, Amcan Penodol a Mesur yr Undeb (sydd wedi'u nodi yn yr adran Cydweddiad Strategol uchod)
- esbonio a fydd eich prosiect yn cyfrannu at nodau ac amcanion ehangach Rhaglen EMFF, fel y nodir yn yr adran Amcanion Strategol a Thematig o'r Nodiadau Cyfarwyddyd hyn.

**Y gallu i gyflawni:**

Mae disgwyl i brosiect ddangos:

<u>Yr angen am gyllid:</u>

- na all y prosiect fynd rhagddo heb gymorth
- nad yw'r costau'n ormodol ar gyfer natur y gweithgarwch dan sylw
- bod bwlch cyllid neu fethiant yn y farchnad, lle bo hynny'n berthnasol.

Gweler y Nodiadau Canllaw ar 'Sut mae Gwneud Cais' am ragor o fanylion.

Y gallu i sicrhau:

- hyfywedd y busnes  cydymffurfiaeth â'r gyfraith
- hyfywedd ariannol y prosiect a chynaliadwyedd, gan gynnwys strategaeth ymadael
- cymorth perthnasol ac ymrwymiad rhanddeiliaid allweddol
- trefniadau rheoli, monitro a gwerthuso'r prosiect.

Gweler y Nodiadau Canllaw ar 'Sut mae Gwneud Cais' am ragor o fanylion.

95. Po fwyaf yw pwysigrwydd a chyfraniad y prosiect at yr amcanion thematig a strategol priodol, y mwyaf tebygol ydyw y bydd yn cael ei argymell ar gyfer ei ddewis.

**GOFYNION ALLWEDDOL**

96. Ni fyddai'r prosiect yn mynd rhagddo fel y mae ar hyn o bryd heb gymorth grant.

97. Swm y grant y gofynnir amdano yw'r cyllid llenwi bwlch isaf sy'n angenrheidiol i'r prosiect fynd rhagddo.

98. Mae'n rhaid i geisiadau ddangos eu bod wedi mynd i'r afael â'r canlynol hefyd:

- mae caniatâd cynllunio amlinellol wedi'i dderbyn os oes angen hynny
- mae pob cydsyniad, trwydded a chaniatâd arall wedi'i roi yn ôl yr angen
- ar gyfer busnesau sydd eisoes yn bodoli, hyfywedd economaidd y prosiect a'r busnes, drwy ddarparu cyfrifon ar gyfer tair blynedd olynol yn union cyn dyddiad y cais a rhagolygon ariannol ar gyfer cyfnod y prosiect
- bydd yn rhaid i fusnesau newydd ddarparu manylion llawn am gefndir a phrofiad y cyfarwyddwyr ynghyd â thystiolaeth arall sy'n angenrheidiol i ddilysu'r cynllun busnes a chynigion y prosiect
- cydymffurfio â Chyfraith y DU a'r UE ar gyfle cyfartal, a dylai prosiectau hyrwyddo ac annog cyfle cyfartal a mynd i'r afael ag allgáu cymdeithasol
- cydymffurfio â'r safonau gofynnol a'r gofynion deddfwriaethol o ran yr amgylchedd, hylendid, lles anifeiliaid a safonau iechyd a diogelwch  sicrhau bod y sgiliau a'r cymwyseddau technegol angenrheidiol ar gael yn y busnes.

**DANGOSYDDION AC ADRODD**

**Dangosyddion**:

99. Mae Rhaglen Weithredol EMFF yn nodi'r dangosyddion canlyniadau ac allbynnau y mae disgwyl i brosiectau adrodd arnynt.

**Dangosyddion Allbynnau:**

100. Mae'r Dangosydd Allbynnau yn cofnodi nifer y prosiectau y dyfarnwyd grant iddynt. Y rhain yw:

**Mesur I.1: Erthygl 26 – Arloesi** a **Mesur I.2: Erthygl 27 – Gwasanaethau cynghori** a **Mesur I.3: Erthygl 28 – Partneriaethau rhwng gwyddonwyr a physgotwyr**

 Nifer y prosiectau ar arloesi, gwasanaethau cynghori a phartneriaethau â gwyddonwyr

**Mesur I.13: Erthygl 36 – Cymorth ar gyfer y systemau sy'n dyrannu cyfleoedd pysgota**

 Nifer y prosiectau ar systemau ar gyfer dyrannu cyfleoedd pysgota

**Dangosyddion Canlyniadau:**

101. Mae'r Dangosyddion Canlyniadau wedi'u cynllunio i nodi'r manteision neu'r effeithiau sy'n deillio o bob prosiect a gefnogir. Mae Rhaglen Weithredol EMFF yn nodi nifer o wahanol Ddangosyddion Canlyniadau a all fod yn gymwys i brosiectau o dan bob Mesur sydd wedi'i gynnwys yn y Nodiadau Cyfarwyddyd hyn.

102. Gweler yr adran 'Tystiolaeth ar gyfer Dangosyddion Canlyniadau' isod am ragor o fanylion am y wybodaeth y mae angen ei darparu i fesur y cyflawni ar bob un o'r Dangosyddion Canlyniadau a ddewiswyd.

103. Disgwylir rhagor o gyfarwyddyd oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd ynghylch pa Ddangosyddion Canlyniadau yn union a fydd yn gymwys i bob Mesur a'r diffiniadau penodol a gofynion am dystiolaeth ar gyfer y dangosyddion hyn. Cofiwch y gall hyn olygu y bydd newidiadau yn y Dangosyddion Canlyniadau penodol y mae disgwyl i brosiectau adrodd ar eu cyflawni. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyfarwyddyd pellach pan fydd y wybodaeth hon ar gael.

**Mesur I.1: Erthygl 26 – Arloesi** a **Mesur I.2: Erthygl 27 – Gwasanaethau cynghori** a **Mesur I.3: Erthygl 28 – Partneriaethau rhwng gwyddonwyr a physgotwyr**

 Newid mewn elw net

**Mesur I.13: Erthygl 36 – Cymorth ar gyfer y systemau sy'n dyrannu cyfleoedd pysgota**

- Newid mewn elw net
- Newid yng nghanran y fflydoedd anghytbwys

**Tystiolaeth ar gyfer Dangosyddion Canlyniadau**

104. Mae'r paragraffau dilynol wedi'u seilio ar y cyfarwyddyd drafft cyfredol oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd ar y wybodaeth y mae angen i fuddiolwyr ei darparu er mwyn mesur a dangos tystiolaeth o gyflawni ar y Dangosyddion Canlyniadau y maent wedi'u dewis. Mae'n bosibl y bydd y gofynion ar gyfer y wybodaeth hon yn newid wedi i'r Comisiwn Ewropeaidd ddarparu cyfarwyddyd wedi'i ddiweddaru. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyfarwyddyd pellach pan fydd y wybodaeth hon ar gael.

105. Newid mewn elw net

- Enillion Blynyddol Cyn Llog a Threthi cyn y prosiect
- Enillion Blynyddol Cyn Llog a Threthi ar ôl y prosiect

106. Newid yng nghanran y fflydoedd anghytbwys

- Mae'r cyfarwyddyd drafft cyfredol oddi wrth y Comisiwn Ewropeaidd yn nodi y bydd y Dangosydd Canlyniadau hwn yn cael ei gyfrifo gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU. Bydd Llywodraeth Cymru yn darparu cyfarwyddyd pellach pan fydd rhagor o wybodaeth ar gael.

__Data Gweithredu:__

107. Yn unol â gofynion Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn 1243/2014, bydd yn ofynnol i brosiectau adrodd ar yr wybodaeth ganlynol hefyd:

**Mesur I.1: Erthygl 26 – Arloesi**

108. Nodi a yw'r prosiect yn ymwneud â:

- pysgota môr
- pysgota mewndirol
- y ddau.

109. Y math o arloesi:

- cynhyrchion a chyfarpar  prosesau a thechnegau
- system rheoli a threfnu.

110. Nifer y bobl sy'n cael mantais uniongyrchol o'r prosiect yn y cwmnïau sy'n cael cymorth.

111. Os yw'r prosiect yn ymwneud â'r môr, Rhif Cofrestru Fflydoedd Cymunedol (CFR) pob cwch pysgota sy'n gysylltiedig â'r prosiect.

**Mesur I.2: Erthygl 27 – Gwasanaethau cynghori**

112. Nodi a yw'r prosiect yn ymwneud â:

- pysgota môr
- pysgota mewndirol
- y ddau.

113. Y math o wasanaeth cynghori:

- astudiaethau dichonoldeb a gwasanaethau cynghori  cyngor proffesiynol
- strategaethau busnes.

114. Os yw'r prosiect yn ymwneud â'r môr, Rhif Cofrestru Fflydoedd Cymunedol (CFR) pob cwch pysgota sy'n gysylltiedig â'r prosiect.

**Mesur I.3: Erthygl 28 – Partneriaethau rhwng gwyddonwyr a physgotwyr**

115. Nodi a yw'r prosiect yn ymwneud â:

- pysgota môr
- pysgota mewndirol
- y ddau.

116. Y math o weithgareddau:

- rhwydweithiau
- cytundeb partneriaeth neu gymdeithas
- casglu a rheoli data
- astudiaethau
- prosiectau peilot
- lledaenu
- seminarau
- yr arferion gorau.

117. Nifer y gwyddonwyr sy'n cymryd rhan yn y bartneriaeth.

118. Nifer y pysgotwyr sy'n cymryd rhan yn y bartneriaeth.

119. Nifer y cyrff eraill sy'n cael mantais o'r prosiect.

120. Os yw'r prosiect yn ymwneud â'r môr, Rhif Cofrestru Fflydoedd Cymunedol (CFR) pob cwch pysgota sy'n gysylltiedig â'r prosiect.

**Mesur I.13: Erthygl 36 – Cymorth ar gyfer y systemau sy'n dyrannu cyfleoedd pysgota**

121. Y math o weithgarwch:

- dylunio
- datblygu
- monitro
- gwerthuso
- rheoli.

122. Y math o fuddiolwr:

- awdurdod cyhoeddus
- person cyfreithiol
- bod dynol
- sefydliad pysgotwyr  sefydliadau cynhyrchwyr
- eraill.

**Yr Holl Fesurau**

123. Dylid rhoi'r wybodaeth hon ar ddwy adeg yn ystod oes y prosiect:

- dylid nodi'r hyn y disgwylir ei gyflawni/targedau rhagweledig fel rhan o'r cais
- dylid adrodd ar yr hyn a gyflawnwyd mewn gwirionedd ar ôl gorffen y prosiect.

**<u>THEMÂU TRAWSBYNCIOL</u>**

124. Mae'r Rheoliadau sy'n llywodraethu Rhaglenni Ewropeaidd yn nodi bod yn rhaid i bob prosiect a ariennir drwy'r Fframwaith Strategol Cyffredin integreiddio'r Themâu Trawsbynciol sy'n ymwneud â Hyrwyddo cydraddoldeb rhwng dynion a merched a pheidio â gwahaniaethu a Datblygu cynaliadwy. Mae angen ymgorffori'r Themâu Trawsbynciol gorfodol hyn wrth ddylunio a datblygu'r Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd (ESIF) ac wrth gynnal y gweithgarwch a gefnogir drwy'r cronfeydd hynny. Mae hyn yn cynnwys EMFF.

125. Bwriad y themâu trawsbynciol yw ychwanegu gwerth, codi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth tra'n sicrhau'r cyfraddau cyfranogiad uchaf posibl a lliniaru effeithiau andwyol. Dylai hyn fod o gymorth i brosiectau symud y tu hwnt i gydymffurfiaeth a datblygu systemau sy'n cefnogi arfer gorau.

126. Mae rhagor o ganllawiau ar gael yma:

http://gov.wales/funding/eu-funds/2014-2020/wefo-guidance/cross-cuttingguidance/?skip=1&lang=cy

## SUT MAE GWNEUD CAIS

127. Gellir gwneud ceisiadau am gymorth drwy lenwi'r ffurflen gais a'i chyflwyno drwy WEFO Ar-lein (gweler y canllawiau ar wahân).

128. Unwaith y byddwch chi wedi cyflwyno eich cais llawn, bydd Llywodraeth Cymru yn anfon cydnabyddiaeth a hysbysiad atoch chi yn nodi bod modd i chi fwrw ati gyda'ch prosiect ar eich menter eich hun. Byddwch yn cael yr hysbysiad hwn o fewn 15 diwrnod gwaith i gyflwyno eich cais llawn.

129. **Ni ddylech ddechrau gweithio ar eich prosiect hyd nes y byddwch chi'n cael yr hysbysiad hwn.**

130. Yn amodol ar ofynion Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004: **caiff yr holl wybodaeth a roddir i Lywodraeth Cymru ei thrin yn gwbl gyfrinachol. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, dylech fod yn ymwybodol o'r ffaith bod Llywodraeth Cymru, Llywodraeth y DU a'r CE yn cadw'r hawl i gyhoeddi enw eich cwmni, cyfanswm y grant a ddyfarnwyd i chi a chrynodeb o'ch prosiect.**

131. Gallwch ddefnyddio ymgynghorydd i baratoi eich cais os dymunwch, **ond mae'n rhaid i chi, ac nid yr ymgynghorydd, lofnodi'r ffurflen gais. Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau bod y cais wedi'i gwblhau'n gywir a bod yr wybodaeth a ddarperir i gefnogi'ch prosiect yn gywir.**

132. Pan fyddwch yn cyflwyno'ch ffurflen gais, bydd Llywodraeth Cymru'n cydnabod ei bod wedi dod i law. Os yw'ch prosiect yn anghymwys, cewch wybod hyn cyn gynted â phosibl. Os yw'ch cais yn gymwys bydd arfarniad technegol ac ariannol yn cael ei gynnal. Ar ôl cwblhau'r arfarniad, bydd y cymorth ar gyfer eich cais yn cael ei werthuso yn erbyn y graddau y mae'n cyflawni'r amcanion a'r blaenoriaethau cenedlaethol a rhanbarthol, fel y disgrifir uchod.

133. Mae tri chanlyniad posibl:

(a) Nid yw'ch prosiect yn gymwys i gael y grant. Cewch wybod cyn gynted â phosibl.

(b) Mae'ch prosiect yn gymwys i'w ystyried, ond nid yw'n cael ei gymeradwyo ar gyfer dyfarniad. Cewch wybod y rhesymau pam na fu eich cais yn llwyddiannus. Gallwch ymgeisio eto gyda'r un prosiect (gan ddiwygio'r cais os dymunwch) – **ar yr amod nad ydych wedi dechrau ar y gwaith**.

(c) Mae eich prosiect yn gymwys ac yn cael ei gymeradwyo ar gyfer dyfarniad. Byddwch yn cael llythyr cymeradwyo yn nodi telerau ac amodau'r dyfarniad, a gofynnir i chi ei lofnodi fel cytundeb eich bod yn derbyn y telerau ac amodau. Bydd y llythyr hefyd yn eich awdurdodi i ddechrau ar y gwaith.

**<u>AMODAU'R GRANT</u>**

134. Mae Cronfa EMFF yn amodol ar amrywiaeth o ddeddfwriaeth berthnasol. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru a'r ymgeisydd a derbynnydd y cymorth yn y pen draw weithredu yn unol â'r ddeddfwriaeth honno.

135. Caiff grant o dan Gronfa EMFF ei gynnig yn amodol ar delerau ac amodau, gan gynnwys y rhai a nodir isod ond heb fod yn gyfyngedig iddynt. **Gallai methu â bodloni telerau ac amodau'r dyfarniad arwain at ddiddymu eich dyfarniad a/neu adennill symiau sydd eisoes wedi'u talu, neu ostyngiad yn swm y grant sy'n daladwy**.

**Amodau:**

1. Mae'n rhaid derbyn y grant a gynigir o fewn pedwar diwrnod gwaith ar ddeg (14) i ddyddiad y llythyr cymeradwyo.

2. Mae'r dyfarniad yn cael ei wneud ar sail y datganiadau a wnaed gennych chi neu'ch cynrychiolwyr ar y ffurflen gais ac mewn gohebiaeth ddilynol.

**Mae'n drosedd gwneud datganiadau ffug neu gamarweiniol.**

3. Ni chewch ddechrau ar unrhyw waith ar y prosiect cyn cael awdurdod ysgrifenedig i wneud hynny gan Lywodraeth Cymru.

4. Mae'n rhaid i chi gyflawni unrhyw rwymedigaethau cyfreithiol o dan gyfraith yr UE a'r DU, gan gynnwys deddfwriaeth hylendid.

5. Ni chewch wneud unrhyw newidiadau i'r prosiect, gan gynnwys lleoliad y gweithgarwch, heb gymeradwyaeth ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.

6. Ni chewch gael gwared ar, trosglwyddo neu werthu unrhyw gyfarpar a/neu adeiladau a brynwyd gyda chymorth grant heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru yn ystod cyfnod cyflawni'r prosiect ac am bum mlynedd ar ôl dyddiad cwblhau'r prosiect. Mae hyn yn cynnwys newidiadau anuniongyrchol e.e. lle bo safle neu gwch yn newid perchenogaeth neu lle bo lleoliad unrhyw eitemau a gaiff eu hariannu yn newid.

7. Eich cyfrifoldeb chi fel yr ymgeisydd gwreiddiol yw hysbysu'r perchenogion newydd o'r rhwymedigaethau ariannu sy'n gysylltiedig â'r eitem. Bydd yn ofynnol i'r perchenogion newydd dderbyn telerau ac amodau'r arian am y cyfnod sy'n weddill hyd at 5 mlynedd o ddyddiad derbyn y cynnig gwreiddiol am arian.

8. Os nad yw perchennog newydd yr eitem neu eitemau yn derbyn y telerau ac amodau ariannu sy'n gysylltiedig, yna tybir nad yw'r eitem wedi cyflawni ei rhwymedigaethau i'r cynllun ac felly gellir cymryd camau i adennill yr arian a roddwyd i chi fel yr ymgeisydd gwreiddiol.

9. Ni chewch drosglwyddo cwch pysgota y tu allan i'r UE, am o leiaf 5 mlynedd ar ôl talu arian EMFF i'r ymgeisydd; os gwnewch hyn bydd yn rhaid i chi addalu'r arian a gawsoch o dan EMFF yn rhannol neu i gyd. Mae'r union swm y mae'n rhaid i chi ei dalu yn dibynnu ar ba bryd y gwnaethoch chi drosglwyddo'r cwch.

10. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd gydymffurfio â'r rheolau ar wariant cymwys fel y nodir yn y Nodiadau Cyfarwyddyd perthnasol.

11. Rhaid i hawliadau gael eu cyflwyno yn y fformat cywir ynghyd â'r holl ddogfennau angenrheidiol. Fel arall, byddant yn cael eu gwrthod a'u dychwelyd i'r ymgeisydd.

12. Rhaid i hawliadau gael eu cyflwyno yn unol â'r amserlen y cytunwyd arni. Ni allwch newid yr amserlen y cytunwyd arni na gwerth eich hawliadau heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.

13. Dylid cwblhau prosiectau o fewn yr amserlen y cytunwyd arni gyda Llywodraeth Cymru. Ni chewch wyro oddi wrth hyn heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gan Lywodraeth Cymru.

14. Mae'n rhaid i chi gadarnhau nad oes dim o'r eitemau sydd wedi'u cynnwys yn y cais yn cymryd lle eitemau o dan hawliad yswiriant.

15. Mae’n rhaid i chi gadarnhau nad ydych chi wedi gwneud cais am unrhyw gyllid cyhoeddus arall (o ffynonellau’r UE neu’r DU).

16. Mae’n rhaid i unrhyw ddeunydd cyhoeddusrwydd a roddir i’r prosiect gyfeirio at gyfraniad yr UE a Llywodraeth Cymru at ei gyllido.

17. Mae’n rhaid cadw cofnodion sy’n ymwneud â gweithgarwch y busnes a chyflawni’r prosiect, gan gynnwys yr holl anfonebau gwreiddiol a dogfennau cysylltiedig eraill, fel tendrau cystadleuol neu ddyfynbrisiau, nes bydd chwe blynedd wedi dod i ben ar ôl dyddiad olaf y cymorth ariannol a roddwyd i chi mewn perthynas â’r prosiect.

18. Mae’n rhaid i chi ganiatáu i bersonau a awdurdodwyd gan Lywodraeth Cymru, yn cynnwys Archwilydd Cyffredinol Cymru, y Comisiwn Archwilio a Llys Archwilwyr Ewrop arolygu’r prosiect. Ar gais, mae’n rhaid i chi roi gwybodaeth iddynt a/neu fynediad at ddogfennaeth wreiddiol sy’n ymwneud â’r prosiect.

19. Mae’r wybodaeth a ddarperir yn y cais ac unrhyw ddogfennaeth ategol yn destun gofynion Cod Ymarfer Llywodraeth Cymru ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth, Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004.

**Os bydd eich cais yn llwyddiannus, dylech fod yn ymwybodol o’r ffaith bod Llywodraeth Cymru a’r UE yn cadw’r hawl i gyhoeddi enw eich busnes neu gwmni, cyfanswm y grant a ddyfarnwyd i chi a chrynodeb o’ch prosiect.**

20. Mae’r wybodaeth a ddarperir yn y cais ac unrhyw ddogfennaeth ategol yn destun i Hysbysiad Preifatrwydd sydd ar gael yn https://gov.wales/topics/environmentcountryside/marineandfisheries/europeanmaritime-fisheries-fund/?skip=1&lang=cy. Mae’r Hysbysiad Preifatrwydd yn esbonio sut y bydd Llywodraeth Cymru’n prosesu ac yn defnyddio’ch data personol a’ch hawliau o dan y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

## TALU GRANT

### Hawliadau

136. Gallwch gyflwyno hawliadau interim yn ystod cyfnod eich prosiect. Bydd nodiadau canllaw ynghylch sut i hawlio yn cael eu cyhoeddi pan gaiff y dyfarniad ei gadarnhau ac wedyn pan gewch eich gwahodd i hawlio. Dim ond pan fydd Llywodraeth Cymru yn fodlon bod y gwariant perthnasol wedi’i wneud a bod y gwaith wedi’i gwblhau yn unol â’r cynllun y bydd hawliadau’n cael eu talu. Bydd taliadau’n cael eu gwneud drwy drosglwyddiad electronig i’ch cyfrif banc.

137. Dylid cyflwyno hawliadau terfynol ar gyfer talu grant cyn gynted â phosibl ar ôl cwblhau'r gwaith ar y prosiect. Mae'n rhaid i'r hawliadau terfynol ddod i law erbyn 30 Mehefin 2023 fan bellaf er mwyn i Lywodraeth Cymru allu gwneud y taliad. Gall methu â chyflwyno hawliadau arwain at orfod ad-dalu'r grant sydd wedi'i dalu tan hynny.

138. Yn ystod oes y grant, pan fo hawliadau'n cael eu cyflwyno, efallai y byddant yn cael eu harchwilio i sicrhau bod gwariant yn gymwys ac yn unol â'r hyn a gymeradwywyd yn y cais gwreiddiol. Yn ystod y prosiect, gellir ymweld â noddwr y prosiect a chynnal asesiad manwl o'r prosiect: gall hyn gynnwys adolygiad o'r holl ddogfennau ategol gwreiddiol. Ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf, ar ôl cwblhau'r gwaith ffisegol, efallai yr ymwelir â'r safle a bydd asesiad manwl o'r prosiect yn cael ei gynnal. Gallai'r wybodaeth a fydd yn ofynnol yn ystod yr ymweliad gynnwys heb fod yn gyfyngedig i; anfonebau gwreiddiol; rhifau cyfresol/peiriannau; tystysgrif cwblhau Rheoliadau Adeiladu (lle bo'n briodol); system Iechyd a Diogelwch, gan gynnwys dadansoddi risg; dogfennau Asesu Risg Tân yn unol â Gorchymyn Diwygio Rheoleiddio (Diogelwch Tân) 2005; cofnodion Trefniadau Glanhau; cofnodion Rheoli Plâu a chofnodion Rheoli Ansawdd. Caiff y grant ei dalu ar yr amod y gwneir cynnydd digonol.

**Hawliadau anghywir**

139. Mae gennych gyfrifoldeb i sicrhau bod pob hawliad a gyflwynir yn gywir yn rhifyddol; ei fod am wariant sydd wedi'i dalu yn unig (mae'r arian wedi gadael y cyfrif banc); bod yr holl eitemau a chostau'n gymwys a bod yr hawliad ar amser.

140. Os yw'r hawliad yn anghywir bydd eich hawliad yn cael ei ostwng i'r swm sy'n gymwys a bydd y grant a fydd yn cael ei dalu'n cael ei gyfrifo ar sail hynny.

141. Os oes gennych chi unrhyw amheuon ynglŷn â chymhwyster unrhyw wariant, rhaid i chi wirio **cyn** i chi fynd i gostau.

**Troseddau**

142. Mae Rheoliadau Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (Grantiau) (Cymru) 2016 Rhif 665 (W. 182) yn pennu troseddau a chosbau mewn perthynas ag agweddau penodol ar gyllid Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop. Mae'r enghreifftiau o'r troseddau'n cynnwys rhoi gwybodaeth ffug neu gamarweiniol yn fwriadol neu'n fyrbwyll mewn perthynas â chyllid Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop; rhwystro arolygwr neu swyddog; a gwrthod rhoi gwybodaeth ar gais.

## MONITRO PROSIECTAU

143. Mae’n ofynnol gan y Comisiwn Ewropeaidd bod cynnydd eich prosiect yn cael ei fonitro a bod ei lwyddiant yn cael ei werthuso ar ôl ei gwblhau. Bydd gofyn i chi ddarparu diweddariadau rheolaidd ar ei gynnydd ac adroddiad terfynol ar ei berfformiad dri mis ar ôl ei gwblhau pan fydd y prosiect yn cael ei werthuso yn erbyn yr amcanion a’r targedau sydd yn y cais a gymeradwywyd. Os na fydd y prosiect yn cyrraedd y targedau hyn ac, ar sail y cynnydd a wnaed mewn gwirionedd, ni fyddai’n gymwys i gael cymorth grant o dan y cynllun, gellid cymryd camau i adennill y grant sydd wedi’i dalu.

144. Un o ofynion dyfarnu’r grant fydd sicrhau bod y cyfarpar sy’n cael ei brynu gyda chymorth grant EMFF ac unrhyw adeiladau y telir grant amdanynt, yn cael eu cadw yn eu lleoliad gwreiddiol, yn weithredol ac mewn cyflwr da, ac yn cael eu defnyddio at y dibenion a nodwyd yn y cais gwreiddiol, am bum mlynedd ar ôl dyddiad cwblhau’r prosiect. Mae hyn er mwyn sicrhau hirhoedledd y prosiect a sicrhau cyfran barhaol o fanteision y prosiect i’r cynhyrchwyr sylfaenol.

145. Ar gyfer buddsoddiadau cyfalaf, mae’n bosibl y bydd angen cwblhau ffurflen monitro arall ddwy flynedd ar ôl cwblhau ac eto bum mlynedd ar ôl cwblhau. Bydd ymweliadau â’r safle’n cael eu cynnal ar ganran o’r prosiectau buddsoddi cyfalaf a gymeradwyir o fewn pum mlynedd i ddyddiad cwblhau’r prosiect i sicrhau bod gan yr ymgeisydd yr adeiladau a/neu’r cyfarpar a brynwyd gyda’r grant o hyd a’i fod yn dal i’w defnyddio at yr un dibenion a bod y busnes yn perfformio yn ôl y disgwyl.

146. Mae’n rhaid i chi ganiatáu i swyddogion Llywodraeth Cymru a’r Comisiwn Ewropeaidd, neu eu cynrychiolwyr, arolygu’r prosiect ar unrhyw adeg resymol o fewn y cyfnod hwn o bum mlynedd.

**DIWEDD RHAGLEN EMFF**

147. Mae’n rhaid cyflwyno pob hawliad i Lywodraeth Cymru erbyn 30 Mehefin 2023 fan bellaf. Mae’n rhaid cwblhau holl weithgarwch y prosiect mewn da bryd i’r cyfrifon a’r cofnodion gael eu harchwilio ac i hawliadau gael eu paratoi a’u cyflwyno erbyn y dyddiad hwn.

**GWEITHDREFN APELIO**

148. Os gwrthodir cais, bydd y rhesymau am ei wrthod yn cael eu hegluro. Byddwn yn fodlon trafod unrhyw addasiadau y gallai fod eu hangen i wneud y prosiect yn dderbyniol.

149. Os yw cais yn dal i gael ei wrthod bydd gweithdrefn apelio yn cael ei sefydlu ar ffurf cyflwyniad llafar neu ysgrifenedig i bobl a benodir gan Weinidogion Cymru ac sy’n annibynnol arnynt.

**GWEITHDREFN GWYNO**

150. Os ydych chi'n teimlo nad ydym wedi dilyn y drefn gywir wrth ddelio â'ch cais efallai yr hoffech wneud cwyn yn unol â Pholisi Cwynion Llywodraeth Cymru sydd ar gael drwy'r post neu ar y wefan yn:

https://gov.wales/contact_us/makeacomplaint/?skip=1&lang=cy